

Trosolwg

Mae'r safon hon yn addas i bobl sy'n gweithio ym meysydd coedyddiaeth, coedwigaeth, cadwraeth amgylcheddol, amaeth, garddwriaeth a rheoli anifeiliaid hela a bywyd gwylt.

Mae'n berthnasol i bob amgylchedd a allai ddioddef digwyddiadau ac argyfyngau iechyd planhigion ac mae'n berthnasol i blanhigion, coed a chynnyrch planhigion. Mae'n gysylltiedig â'r gweithgareddau y mae angen i chi ymgymryd â nhw cyn, yn ystod ac ar ôl nodi bod digwyddiad neu argyfwng iechyd planhigion yn bresennol.

I fodloni'r safon hon, byddwch chi'n gallu:

- paratoi ar gyfer digwyddiadau ac argyfyngau iechyd planhigion
- cymryd camau i amddiffyn iechyd planhigion
- monitro iechyd planhigion
- adnabod plâu a chlefydau
- rhoi gwybod am blâu a chlefydau hysbysadwy (cwarantín)
- cymryd camau i gyfyngu a rheoli plâu ac achosion o glefydau
- monitro a gwella'r ymateb

Er mwyn i chi ddeall cynnwys y safon yn llawn, a'r gweithgareddau y mae'n eu disgrifio, mae'n bwysig eich bod yn gallu deall y termau a ddefnyddir yn y safon. Gweler yr Eirfa am rai diffiniadau a ddylai eich helpu gyda hyn.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwybod am blâu a chlefydau posibl a allai effeithio ar y planhigion, y coed neu'r cynnyrch planhigion yn eich gofal
2. cadw i fyny â'r rhybuddion diweddaraf am blâu a chlefydau
3. gweithredu mesurau i amddiffyn y planhigion, y coed neu'r cynnyrch planhigion yn eich gofal rhag plâu a chlefydau
4. monitro'r planhigion, y coed neu'r cynnyrch planhigion sydd yn eich gofal yn rheolaidd am arwyddion o blâu a chlefydau
5. adnabod plâu a chlefydau sy'n hysbysadwy (cwarantyn) a rhoi gwybod amdanynt i'r sefydliad cyfrifol yn unol â'r gofynion
6. yn achos digwyddiadau plâu a chlefydau sy'n destun gweithredu statudol, dilyn y mesurau statudol sydd wedi'u diffinio gan y sefydliad cyfrifol er mwyn cynnwys a rheoli'r achosion
7. yn achos digwyddiadau plâu a chlefydau nad ydynt yn hysbysadwy, cymryd y camau priodol i leihau effeithiau'r achosion
8. rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith i leihau effaith digwyddiadau iechyd planhigion
9. ceisio cyngor arbenigol, lle bo angen
10. monitro canlyniad y digwyddiad iechyd planhigion a chymryd camau i wella'r ymateb
11. cwblhau cofnodion a dogfennaeth yn unol â gofynion deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y plâu a'r clefydau a allai effeithio ar y planhigion neu'r coed yn eich gofal
2. sut i gadw i fyny â'r rhybuddion diweddaraf am blâu a chlefydau
3. mesurau i amddiffyn y planhigion, y coed neu'r cynnyrch planhigion yn eich gofal rhag plâu a chlefydau, gan gynnwys mesurau bioddiogelwch
4. pwysigrwydd monitro'r planhigion, y coed neu'r cynnyrch planhigion sydd yn eich gofal yn rheolaidd am arwyddion o blâu a chlefydau, a pha mor aml y dylid gwneud hyn
5. sut i adnabod achosion posibl o blâu a chlefydau sy'n hysbysadwy (cwarantín) a rhai nad ydynt yn hysbysadwy (dim cwarantín)
6. sut i roi gwybod am ddigwyddiadau plâu a chlefydau sy'n hysbysadwy (cwarantín), i bwy y dylid rhoi gwybod a'r gofynion ar gyfer hysbysu
7. pwysigrwydd dilyn y mesurau statudol sydd wedi'u diffinio gan y sefydliad cyfrifol wrth ymateb i ddigwyddiad pla a chlefyd hysbysadwy
8. y camau y gellir eu cymryd i leihau effaith digwyddiadau plâu a chlefydau nad ydynt yn hysbysadwy
9. pwysigrwydd cynlluniau wrth gefn i leihau effaith digwyddiadau iechyd planhigion a beth ddylent ei gynnwys
10. ble i geisio cyngor a hyfforddiant arbenigol
11. pwysigrwydd monitro canlyniad y digwyddiad iechyd planhigion a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wella camau yn y dyfodol
12. y cofnodion a'r ddogfennaeth y mae angen eu cwblhau yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

Geirfa

Bioddiogelwch:

Mesurau wedi'u hanelu at atal cyflwyno a/neu ledaenu organebau niweidiol a rhywogaethau estron

Camau gweithredu posibl i gynnwys a rheoli achosion:

- Gwaredu a dinistrio neu drin y deunydd planhigion sydd wedi'i effeithio
- Gweithredu mesurau cyfyngu i atal deunydd planhigion a all fod wedi'u heffeithio rhag symud ymlaen
- Cyfyngu ar symudiadau (e.e. pobl/traffig) i ardaloedd sydd wedi'u heffeithio ac allan ohonynt
- Glanhau a diheintio cyfarpar, cyfarpar diogelu personol (PPE), cerbydau, peiriannau ac eitemau cysylltiedig eraill yn drylwyr, a allai beri bod y pla a/neu'r clefyd yn lledaenu
- Dilyn trywydd ac olrhain planhigion a all fod wedi'u heffeithio
- Cyfathrebu'n gyson â phawb sy'n gysylltiedig
- Monitro canlyniadau camau gweithredu gan reolwyr

Sefydliadau cyfrifol e.e.

- DEFRA
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Comisiwn Coedwigaeth (FC)
- Forest Research (FR)
- Llywodraeth yr Alban (SG)
- SASA (isadran i Gyfarwyddiaeth Amaeth ac Economi Wledig Llywodraeth yr Alban) (ARE)
- NatureScot
- Scottish Forestry (SF)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW)
- Llywodraeth Cymru
- Cyfarwyddiaeth Iechyd Planhigion DAERA

Ymateb i ddigwyddiadau iechyd planhigion

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2023
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2028
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANCS102
Galwedigaethau perthnasol	Ffermwr, Cadwraeth Amgylcheddol, Coedwigaeth, Coedyddiaeth, Garddwriaeth
Cyfes/Set	Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir
Geiriau Allweddol	planhigion; coed; plâu; clefydau; achosion; digwyddiad
